Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cywion Bach**

**Yr Hen Ysgol**
**Idole**
**Carmarthen**
**SA32 8DD**



## Dyddiad yr arolygiad wedi'i gwblhau

02/12/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Cywion Bach

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cywion Bach Cyf |
| Uchafswm y lleoedd cofrestredig | 48 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 29 Ionawr 2021 |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhag-weld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Arolwg â phwyslais oedd hwn, ac am hynny nid ydym wedi ystyried y themâu yn llawn y tro hwn.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da iawn i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth sy'n eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus a datrys problemau yn dda, er mwyn datblygu'n greadigol ac arbrofi. Maent wrth eu bodd yn chwarae gyda'u ffrindiau ac yn cael digonedd o gyfleoedd i ddatblygu trwy'r chwarae.

Mae'r staff gofal yn deall y polisiau a'r gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant. Mae'r staff yn rhyngweithio'n dda iawn gyda'r plant ac yn goruchwylio'n ofalus iawn. Mae perthynas agos iawn rhwng y staff gofal a'r plant. Maent yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn parchu eu dymuniadau a'u hoff a chas bethau

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn addas iawn ar gyfer anghenion y plant.

Mae gan yr unigolyn cyfrifol weledigaeth gadarn ac mae'n cydweithio ac yn cyfathrebu'n agos iawn gyda'r rhieni a gwarchodwyr i ddiwallu anghenion y plant yn llwyddiannus. Mae'n rhagweithiol ac yn gweithredu'n brydlon gan osod lles y plant yn ganolog i'w phenderfyniadau.

## Llesiant

Gan mai arolwg â phwyslais oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn dangos diddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd diddorol dan do ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, wrth chwarae yn yr allt, roedd plant yn gwenu'n braf wrth chwarae gyda'i gilydd ar y siglenni.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth sy'n eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus a datrys problemau yn dda, er mwyn datblygu'n greadigol, arbrofi a bod yn ddychmygus. Roedd plant yn canolbwyntio'n dda wrth adeiladu tŵr uchel gyda blociau, yn mwynhau archwilio ardal yr ysgol goedwig awyr agored ac yn ymateb yn dda i ganmoliaeth

## Gofal a Datblygiad

Gan mai arolwg â phwyslais oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r staff gofal yn goruchwylio'r plant yn dda. Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu ac mae bron pob un o’r staff gofal yn deall ei gyfrifoldebau i amddiffyn plant yn drwyadl. Mae bron pob ymarferydd yn deall y polisïau yn llawn ac yn eu rhoi ar waith yn gyson ac yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol. Mae bron pob un o’r staff gofal yn nodi ac yn rheoli risgiau yn rhagweithiol ac yn effeithiol. Mae'r staff wnaeth ymateb i’n holiadur yn ddieithriad yn canmol y cymorth y maent yn ei gael gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth.

Mae'r plant yn siarad neu'n mynegi eu hunain yn arbennig o dda am fod y staff gofal yn rhyngweithio’n dda gyda nhw ac yn rhoi ymateb effeithiol ac ystyrlon sy’n ymestyn dealltwriaeth y plant.  Mae iaith eu cartref yn cael ei dathlu a'i hyrwyddo yn effeithiol.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolwg â phwyslais oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa weithdrefnau a pholisïau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau i sicrhau diogelwch a lles y plant. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod y staff gofal wedi cwblhau hyfforddiant iechyd a diogelwch er mwyn datblygu eu dealltwriaeth ymhellach.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod yr amgylchedd y tu fewn a'r tu fas yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod mesurau pellach yn eu lle i sicrhau bod y giatau yn hollol ddiogel, mae asesiadau risg effeithiol yn eu lle ac mae'r staff gofal yn eu dilyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn trefnu gweithdrefnau glanhau rheolaidd sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Mae eu harferion rheoli heintiau da yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant. Er enghraifft, wrth y fynedfa, mae unrhyw ymwelwr yn cael gwiriadau Covid ac yn cofnodi eu presenoldeb a'u manyion cyswllt cyn y gallant fynd i mewn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnig profiadau i'r plant weld y cysylltiad rhwng y cysyniadau y maent yn eu harchwilio a bywyd go iawn a'u profiadau. Maent wedi buddsoddi mewn tŷ bach compost ac mae hynny'n ategu at yr ardal goedwig bendigedig sy'n cynnig cymaint o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau creadigol. Maent hefyd yn cadw rhai anifeiliaid megis moch ac ieir ac yn cael cyfle i ymweld a'r fferm a hyn oll yn cynnig cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu dealltwriaeth ehangach o'r byd sydd o'u cwmpas.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolwg â phwyslais oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa weledigaeth gadarn ac maent yn rhannu'r weledigaeth honno â rhieni a gofalwyr y plant. Maent yn adolygu eu polisïau a'u datganiad o ddiben yn gyson. Maent yn llwyddo i sicrhau bod pawb sy’n gweithio yn y feithrinfa yn roi eu polisïau ar waith o ddydd i ddydd. Maent yn ymateb ar unwaith os bydd angen gwneud gwelliannau yn y gwasanaeth i sicrhau diogelwch y plant. Maent bellach yn cydymffurfio â’r rheoliadau ac yn aml yn rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Fodd bynnag, er bod cofnodion ar gael ar gyfer staff yn cludo plant i’r ysgol, roedd ambell gofnod heb gael ei gwblhau yn hollol brydlon. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn hysbysu AGC am ddigwyddiadau hysbysadwy.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn rheoli'r staff gofal ac yn sicrhau y cânt eu defnyddio mewn ffordd drefnus, er mwyn bodloni'r cymarebau staffio a diwallu anghenion y plant yn llawn. Mae’r bobl sy’n rhedeg y feithrinfa yn cynnal gwiriadau priodol ar staff cyn iddynt gychwyn ac yn dilyn gweithdrefnau recriwtio addas, a bellach mae’r rheiny yn cynnwys myfyrwyr a gwirfoddolwyr ac aelodau o staff dros dro.

Mae'r partneriaethau'n gadarn. Mae’r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod gwybodaeth am y plant yn cael ei rhannu'n ddyddiol â'r rhieni. Maent hefyd yn rhannu negeseuon e-bost â'r rhieni / y gofalwyr am ddigwyddiadau arbennig neu wyliau. Mae rhieni'r plant sy'n defnyddio'r lleoliad hwn yn canmol y gwasanaeth yn fawr. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod wrth eu bodd â'r gofal a ddarperir gan y feithrinfa.

**Argymhellion er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

Ychwanegwch R1. R2. ac ati a'r geiriad sydd ei angen â llaw. Nid rheoliadau yw'r rhain, ond safonau gofynnol cenedlaethol.

R1. Sicrhau bod cofnod casglu plant o'r ysgol yn cael ei gwblhau yn brydlon ar bob adeg.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad. |
| **Wedi ei adolygu** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. |
| **Wedi ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |
| 20 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n agos bob amser | Wedi ei gyflawni |

Pan rydym yn canfod achos o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn eu hamlygu fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu er mwyn unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Os bydd y darparwyr wedi methu â chyflawni'r gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Meysydd I’w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |
| 28 | Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi methu â sicrhau bod gwiriadau addasrwydd ar waith ar gyfer gwirfoddolwyr/myfyrwyr ac aelodau o staff achlysurol. | Wedi ei gyflawni |
| 31 | Methodd yr Unigolyn Cyfrifol â hysbysu AGC am newidiadau i'r staff o fewn yr amserlen benodol. | Wedi ei gyflawni |

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/02/2022